

Cyngor
Fferyllol
Cyffredinol

Ar waith: Canllaw ar gyfer presgripsiynwyr fferyllol

Tachwedd
2019

Gellir atgynhyrchu testun y ddogfen hon (heblaw am y logo a'r brandio) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, cyn belled â'i fod yn cael ei atgynhyrchu'n gywir a heb fod mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod mai gan y Cyngor Fferyllol Cyffredinol y mae'r hawlfraint a rhaid nodi teitl y ddogfen. Os ydym wedi dyfynnu deunydd gan drydydd partner rhaid i chi gael caniatâd deiliad yr hawlfraint.

Cysylltwch â ni ar communications@pharmacyregulation.org os hoffech gopi o'r ddogfen mewn fformat arall (mewn print mwy, er enghraifft, neu mewn iaith arall).

Cynnwys

Ynghylch y canllaw hwn	4
Presgripsiynu fferyllol	6
1. Derbyn cyfrifoldeb dros bresgripsiynu'n ddiogel.....	9
2. Sicrhau'r wybodaeth ddiweddaraf a phresgripsiynu o fewn lefel eich gallu	14
3. Gweithio mewn partneriaeth â gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill a phobl sy'n ceisio gofal	16
4. Ystyriaethau presgripsiynu a chrebwyll clinigol	19
5. Mynegi pryderon.....	26
6. Gwybodaeth ar gyfer cyflogwyr presgripsiynwyr fferyllol	27
Cwestiynau i'w holi i chi'ch hun.....	29
Ffynonellau gwybodaeth eraill	Error! Bookmark not defined.

Y Cyngor Fferyllol Cyffredinol (CFfC) sy'n rheoleiddio fferyllwyr, technegwyr fferyllol a fferyllfeydd cofrestredig yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Yn rhan o'n gwaith, rydym yn gosod y safonau y mae'n rhaid i weithwyr fferyllol proffesiynol eu cyrraedd gydol

Ynghylch y canllaw hwn

Wrth ddefnyddio'r canllaw hwn wrth eu gwaith, rhaid i bresgripsiynwyr fferyllol allu cyfiawnhau eu penderfyniadau a defnyddio'u crebwyll proffesiynol er budd gorau'r person.

Dylid defnyddio'r canllaw hwn ochr yn ochr â'r **safonau ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol**, y mae'n rhaid i bob gweithiwr fferyllol proffesiynol eu cyrraedd.

Dylid hefyd ei ddefnyddio ar y cyd â'n **safonau ar gyfer fferyllfeydd cofrestredig**. Mae gan bob perchennog fferyllfa gyfrifoldeb dros gyrraedd y safonau hyn, er mwyn sicrhau bod gwasanaethau fferyllol yn cael eu darparu mewn ffordd ddiogel ac effeithiol o'r fferyllfa gofrestrdig. Pan fo perchnogion fferyllfeydd yn darparu gwasanaethau o bell, gan gynnwys ar y rhynggrwyd, dylent hefyd ddefnyddio ein **canllawiau ar gyfer fferyllfeydd cofrestredig sy'n darparu gwasanaethau o bell, gan gynnwys ar y rhynggrwyd**.

Dylai presgripsiynwyr fferyllol hefyd gadw at safonau a chanllawiau eraill sy'n berthnasol at eu man gwaith a'u swydd. Gallai'r rhain, er enghraifft, fod gan y Comisiwn Ansawdd Gofal, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, Healthcare Improvement Scotland a'r Awdurdod Safonau Hysbysebu.

Ni all y canllaw hwn ymdrin â phob sefyllfa, ac nid yw'n rhoi cyngor cyfreithiol, gan fod yn rhaid



i bob gweithiwr fferyllol proffesiynol ddefnyddio ei grebwyll proffesiynol i gadw at ddeddfau perthnasol.

Mae'n rhoi canllawiau i bresgripsiynwyr fferyllol ynghylch defnyddio'r safonau wrth bresgripsiynu. Mae'r canllaw ar waith waeth pa leoliad y mae presgripsiynwyr fferyllol yn gweithio ynddo. Mae'n nodi'r prif feysydd y dylai presgripsiynwyr fferyllol eu hystyried wrth gymhwyso'r safonau at eu hymarfer presgripsiynu.

Gallai peidio â dilyn y canllaw hwn, neu beidio â gweithredu'n briodol i sicrhau presgripsiynu diogel, arwain at risg i aelodaeth y presgripsiynydd fferyllol.

Rydym am i'r canllaw hwn fod yn gefn i'r gwaith o ddarparu gofal a meddyginiaethau fferyllol yn briodol ac yn effeithiol, mewn ffordd sy'n cadw at y gyfraith ac yn cyrraedd ein safonau. Credwn y bydd y canllaw hwn o ddefnydd i sefydliadau eraill sy'n cyflogi presgripsiynwyr fferyllol neu sy'n darparu gwasanaethau presgripsiynu fferyllol mewn ystod o leoliadau.

Dylai pob gweithiwr fferyllol sicrhau ei fod yn gyfarwydd â'r meysydd yr ymdrinnir â nhw yn y canllaw hwn, a deall ei gyfrifoldebau ei hun mewn perthynas â phresgripsiynwyr.

Dylid hefyd ddarllen y canllaw hwn ochr yn ochr ag unrhyw ddogfennau rheoleiddio neu GIG ar gyfer Cymru, Lloegr a'r Alban, ac unrhyw ganllawiau wedi eu cyhoeddi gan sefydliadau eraill, gan gynnwys cyrff arwain proffesiynol a rheoleiddwyr eraill.

Mae gennym **nifer o ganllawiau ar ein gwefan** i helpu gweithwyr fferyllol proffesiynol i roi ein safonau ar waith. I gael rhagor o wybodaeth ynghylch ysgrifennu presgripsiynau, defnyddio

presgripsiynau electronig, a fframwaith galluedd yr RPS ar gyfer pob presgripsiynydd, gweler 'Ffynonellau gwybodaeth eraill' ar ddiwedd y ddogfen hon.

Presgripsiynu fferyllol

Mae presgripsiynwyr fferyllol yn cyflawni rôl hollbwysig yn y gwaith o ddarparu gwasanaethau iechyd o ansawdd ac yn yr ymdrech i wella gofal â phobl yn ganolog iddo mewn sawl sector gofal iechyd yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Maen nhw mewn safle da i ddefnyddio'u gwybodaeth am feddyginiaethau, a'u sgiliau presgripsiynu, yn y rolau amrywiol sydd eisoes yn bodoli, a rhai newydd sy'n cael eu datblygu a'u hintegreiddio mewn modelau gofal. Mae presgripsiynwyr fferyllol yn gyfrifol am greu diwylliant proffesiynol sydd â phobl yn ganolog iddo, ac am sicrhau y presgripsiynir ac y cynigir gwasanaethau presgripsiynu yn ddiogel ac yn effeithiol.

Gall presgripsiynydd fferyllol fod yn bresgripsiynydd fferyllol ategol (PFfAt) neu'n bresgripsiynydd fferyllol annibynnol (PFfA). Gall y ddau fath bresgripsiynu, cyflenwi a dosbarthu meddyginiaethau a theclynnau meddygol.

Yn y canllaw hwn, rydym yn defnyddio'r term 'presgripsiynydd fferyllol annibynnol' i olygu presgripsiynwyr ategol ac annibynnol, gan y gall y ddau weithio yn yr un math o leoliadau. Ond rydym wedi nodi'r achlysuron lle na all presgripsiynwyr ategol gyflenwi rhai mathau o feddyginiaethau penodol.

Beth ydyn ni'n ei olygu wrth 'presgripsiynydd ategol'?

Mae presgripsiynydd ategol yn gweithio gydag ymarferydd meddygol neu ddeintyddol o fewn cynllun rheoli clinigol (CRhC) penodol, ond nid yw'n presgripsiynu'n annibynnol. Mae'r gyfraith yn nodi'r hyn y mae'n rhaid i'r CRhC ei gynnwys, a'r cyfyngiadau ar yr hyn y gall y PFfAt ei bresgripsiynu ac ym mha amgylchiadau. Ni all presgripsiynydd ategol bresgripsiynu meddyginiaethau milfeddygol na chynnyrch cosmetig anllawfeddygol. Gall PFfAt ddod yn PFfA drwy hyfforddi ymhellach a throsi ei gymhwyster. Gall wedyn weithio fel PFfA a PFfAt

Beth ydyn ni'n ei olygu wrth 'presgripsiynydd fferyllol annibynnol'?

Mae presgripsiynydd fferyllol annibynnol yn fferylllydd sydd wedi cwblhau'r addysg a'r hyfforddiant cymwys perthnasol i ychwanegu anodiad at ei gofnod yn y gofrestr. Mae'r CFC yn gosod safonau ar gyfer hyfforddiant ac addysg fferyllwyr i fod yn PFfA.

Gall PFfA bresgripsiynu pob meddyginiaeth yn annibynnol ar gyfer unrhyw gyflwr o fewn cwmpas ei ymarfer a'i allu clinigol. Yr eithriadau i hyn yw'r tri chyffur a reolir ar gyfer trin caethiwed at sylweddau (cocaine, dipipanone a diamorphine), a chynnyrch

meddygol didrwydded wedi eu seilio ar ganabis (CBMPau).

Yn sgil newid yn y gyfraith yn Nhachwedd 2018 daeth canabis a pheth cynnyrch penodol wedi eu seilio ar ganabis (CBMPau) yn gyffuriau Atodlen 2 wedi eu rheoli dan Reoliadau Camddefnyddio Cyffuriau 2001. Fodd bynnag, dim ond meddygon arbenigol wedi eu cofrestru ar Gofrestr Arbenigol y Cyngor Meddygol Cyffredinol (CMC) all bresgripsiynu CBMPau didrwydded. Wedi i sylwedd dderbyn awdurdodaeth farchnata, nid yw'r cyfyngiad hwn bellach ar waith a gellir ei bresgripsiynu gan unrhyw bresgripsiynydd. Gall presgripsiynwyr fferyllol annibynnol hefyd bresgripsiynu rhai meddyginiaethau milfeddygol eraill sydd ar gael ar bresgripsiwn yn unig, yn unol â'r Rheoliadau Meddyginiaethau Milfeddygol presennol.

Gall PffA weithredu fel presgripsiynydd ategol ac annibynnol. Er enghraifft, os yw PffA yn gweithio mewn maes cymhwysedd newydd gall benderfynu gweithredu dan gynllun rheoli clinigol fel presgripsiynydd ategol tra hefyd yn hyderus i bresgripsiynu mewn maes galluedd arall fel presgripsiynydd annibynnol.

Presgripsiynu mewn cyd-destun

Gellir presgripsiynu mewn dwy ffordd wahanol. Gallai gynnwys presgripsiynydd fferyllol yn gwneud penderfyniad annibynnol, ar ôl diagnosis, i gyflenwi neu i wrthod cyflenwi meddyginiaeth presgripsiwn yn unig neu ddyfais meddyginiaethol. Gallai hefyd gynnwys rhoi cyngor a gwybodaeth ynghylch meddyginiaethau'r person. Gallai hyn ddigwydd mewn nifer fawr o fathau o leoliadau, ond fel arfer mae'r broses bresgripsiynu'n un gymhleth ac mae mwy iddi nag ysgrifennu presgripsiwn yn unig.

Fodd bynnag, mae PffA yn gyfrifol am ac yn atebol dros asesu a rheoli pobl yn glinigol (gyda chyflyrau â diagnosis neu heb ddiagnosis), heb fod angen ymgynghori gyda phresgripsiynydd arall. Maen nhw hefyd yn gyfrifol am y penderfyniadau presgripsiynu maen nhw'n eu gwneud.

Gall presgripsiynwyr fferyllol mewn fferyllfeydd cofrestredig bresgripsiynu ar gyfer pobl sy'n cerdded i mewn i'r fferyllfa, neu sydd wedi eu hatgyfeirio yno, ar gyfer ystod o fân gyflyrau a mathau o salwch byr dymor, yn ogystal â rhai cyflyrau hir dymor. Mae rhai presgripsiynwyr fferyllol yn gweithio o bell ac yn cynnal ymgynghoriadau dros y ffôn o feddygfeydd, neu'n presgripsiynu ar-lein. Yn fwyfwy aml, mae perchnogion fferyllfeydd yn cyflogi neu'n creu contract gyda phresgripsiynwyr fferyllol neu ddarparwyr gwasanaethau i ddarparu gwasanaethau presgripsiynu ar-lein. Gall presgripsiynwyr fferyllol hefyd bresgripsiynu

mewn timau iechyd cymunedol, carcharau, y lluoedd arfog, cartrefi gofal, ar gyfer teithio a brechu, ac mewn clinigau cosmetig preifat.

Mewn ysbytai, cartrefi gofal a meddygfeydd, mae presgripsiynwyr fferyllol yn gwneud y defnydd gorau o feddyginiaethu i drin cyflyrau hir dymor, penderfynu ar ddiagnosis a monitro canlyniadau triniaeth. Pan fo presgripsiynwyr fferyllol yn cynnal adolygiadau meddyginiaeth ar gyfer pobl sy'n cymryd llawer o feddyginiaethau, mae hyn yn aml yn arwain at benderfyniadau ar y cyd, mewn partneriaeth gyda'r person a'r tîm amlddisgyblaethol, i atal meddyginiaethau rhag cael eu cyflenwi heb angen (dadbresgripsiynu yw'r enw ar hyn). Gallai hyn gynnwys adolygiadau ar gyfer pobl mewn cartrefi gofal a phreswyl ac mewn lleoliadau gofal eraill.

Gall presgripsiynwyr fferyllol bresgripsiynu ar gyfer pobl pan fônt yn cael eu derbyn i'r ysbyty ar gyfer cyflyrau sydd eisoes wedi cael diagnosis, gan eu meddyg teulu er enghraifft. Gallant hefyd ysgrifennu presgripsiynau pan fo person yn cael ei ryddhau o'r ysbyty. Efallai y bydd sefyllfaoedd lle na fydd y presgripsiynydd fferyllol yn meddu ar y galluedd i roi diagnosis ar gyfer cyflwr penodol. Felly, er mwyn sicrhau cysondeb gofal efallai y byddant yn presgripsiynu presgripsiwn wedi ei baratoi gan weithiwr clinigol arall.

Mae gweithio'n rhan o dîm amlddisgyblaethol (TADd) yn hollbwysig i'r gwaith o wella gofal a diogelwch cleifion. Mae presgripsiynwyr fferyllol yn rhan bwysig o TADdau, yn ngweithio ochr yn ochr â gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill i gyd-gytuno ynghylch gofal person. Er enghraifft, ar daith ward, efallai y bydd presgripsiynydd fferyllol yn presgripsiynu

dan gyfarwyddyd presgripsiynydd arall, megis ymgynghorydd neu arbenigwr.

Mewn achos fel hyn, nid cyfrifoldeb y presgripsiynydd fferyllol yn unig yw presgripsiynu.

Gall presgripsiynwyr fferyllol hefyd, yn rhan o'u gwaith: gwirio eglurder a diwygio presgripsiynau, naill ai gyda llaw neu'n electronig; addasu dôs; delio gydag atgyfeiriadau a cheisiadau am brofion; a chynnal gwaith ôl-ofal.

1. Derbyn cyfrifoldeb dros bresgripsiynu'n ddiogel

Mae pobl yn derbyn gofal diogel ac effeithiol sydd â phobl yn ganolog iddo pan fo gweithwyr fferyllol proffesiynol yn trin pob person fel unigolyn gyda'i werthoedd, ei anghenion a'i byderon ei hun.

Mae presgripsiynwyr fferyllol yn gyfrifol ac yn atebol dros eu penderfyniadau a'u gweithredoedd. Bydd hyn yn cynnwys pan fônt yn presgripsiynu neu'n dadbresgripsiynu, a'u penderfyniadau presgripsiynu. I gynyddu diogelwch cleifion a chadw risgiau i gleifion mor isel â phosibl, rhaid i bresgripsiynwyr fferyllol sicrhau eu bod yn presgripsiynu ar sail tystiolaeth, mewn ffordd ddiogel a phriodol. Rhaid gwneud unrhyw benderfyniadau presgripsiynu mewn partneriaeth â'r person sy'n cael ei asesu, er mwyn sicrhau bod ei anghenion yn cael eu diwallu a bod gan y presgripsiynydd fferyllol ganiatâd i bresgripsiynu, pan yn briodol. Mewn ysbytai, mae amgylchiadau lle na fydd hyn wastad yn bosibl, gan fod caniatâd 'ymhlyg' wrth dderbyn person i ysbyty. Byddai hyn yn cynnwys mynediad at gofnodion meddygol y person.

Rhaid i bresgripsiynwyr fferyllol ddefnyddio'u crebwyll proffesiynol er mwyn gweithredu er budd gorau'r person a phresgripsiynu dim ond y meddyginiaethau y maen nhw'n gwybod y byddant yn ddiogel ac yn effeithiol ar gyfer y cyflwr sy'n cael ei drin.

Rhaid i bresgripsiynwyr fferyllol gyfathrebu'n effeithiol gyda'r person er mwyn:

- deall ei anghenion

- sicrhau bod triniaeth yn glinigol angenrheidiol
- asesu a oes gan y person y gallu i wneud penderfyniad ynghylch gofal neu ganiatâd. Efallai y bydd achosion lle na fydd gan y person y gallu hwnnw, naill ai am resymau corfforol (am ei fod yn anymwybodol, er enghraifft) neu am nad yw'n gallu gwneud penderfyniadau ynghylch gofal.
- rhannu'r penderfyniad ynghylch y gofal a ddarperir. Rhaid iddynt wneud hyn drwy gasglu pob gwybodaeth berthnasol a rhoi'r wybodaeth berthnasol i'r person - a'r gofalwr pan yn briodol - mewn ffordd y gallant ei deall, er mwyn gwneud penderfyniad a dewis doeth.
- sicrhau bod y person yn ymwybodol o unrhyw risgiau sydd ynghlwm wrth y driniaeth ac o'r risgiau sydd ynghlwm wrth opsiynau triniaeth gwahanol sydd ar gael

I gael rhagor o wybodaeth am ganiatâd a galluedd, gweler ein cyhoeddiad **Ar waith - canllawiau ar gydsyniad**, Mehefin 2018. Mae hwn yn cynnwys gwybodaeth am unigolion â phŵer atwrnai ynghylch penderfyniadau iechyd a lles (Cymru, Lloegr a'r Alban), er enghraifft:

- Atwrneiaeth Arhosol (AA) yng Nghymru a Lloegr
- gwarcheidwaid â phwerau lles yn yr Alban

Rhaid i weithwyr fferyllol proffesiynol dderbyn cyfrifoldeb dros sicrhau nad yw gofal â phobl yn ganolog iddo yn cael ei gyfaddawdu gan eu

gwerthoedd a'u credoau eu hunain. Mae pobl yn derbyn gofal diogel ac effeithiol pan fo gweithwyr proffesiynol yn deall ac yn gwerthfawrogi amrywiaeth ac yn parchu gwahaniaethau diwylliannol. Mae gan bob gweithiwr fferyllol proffesiynol, gan gynnwys presgripsiynwyr fferyllol, hawl i ymarfer yn unol â'u crefydd, gwerthoedd a chredoau personol cyn belled a'u bod yn gweithredu'n unol â chyfreithiau cydraddoldeb a hawliau dynol ac yn sicrhau na chyfaddawdir gofal sydd â phobl yn ganolog iddo.

I gael rhagor o wybodaeth, gweler **Ar waith: Canllawiau ar grefydd, gwerthoedd personol a chredoau**

Er mwyn amddiffyn pobl, plant ac oedolion agored i niwed yn enwedig, mae'n bwysig bod presgripsiynwyr fferyllol yn gwybod at bwy i atgyfeirio, a gweithredu ar hynny pan fo angen. Mae hyn yn arbennig o bwysig wrth bresgripsiynu o bell.

Rhaid i bresgripsiynwyr fferyllol sicrhau nad yw targedau a chymhelliannau yn effeithio ar eu crebwyll proffesiynol. Rhaid iddynt sicrhau bod y gofal maen nhw'n ei ddarparu yn adlewyrchu anghenion y person ac nad yw'n peryglu iechyd, diogelwch a lles cleifion a'r cyhoedd.

I gael rhagor o wybodaeth am gymhelliannau a thargedau gweler 'Ffynonellau gwybodaeth eraill' ar ddiwedd y ddogfen hon.

Wrth bresgripsiynu, dylai gweithwyr fferyllol proffesiynol ystyried y tri maes canlynol:

1. Meddu ar yr holl wybodaeth sydd ei hangen i bresgripsiynu'n ddiogel

I bresgripsiynu'n ddiogel, mae'n bwysig gallu cael mynediad at gofnodion meddygol person. Fodd bynnag, efallai na fydd modd cael mynediad atynt, neu mai mynediad cyfyngedig yn unig sydd ar gael, ac mae risgiau posibl ynghlwm wrth bresgripsiynu heb y cofnodion hyn. Rhaid i bresgripsiynwyr fferyllol asesu a oes ganddynt ddigon o wybodaeth am iechyd y person a'i hanes meddygol i allu asesu ei gyflwr yn gywir. Mae hyn yn cynnwys defnyddio cofnodion meddygol megis y cofnod gofal cryno (CGC) (yn Lloegr), y **crynodedb gofal brys (yn yr Alban)** neu **Gofnod Meddygon Cymru**, pan fo'r rhain ar gael. Dylai presgripsiynwyr fferyllol ddefnyddio ffynonellau gwybodaeth eraill, megis llythyrau diweddar yn rhyddhau o'r ysbyty, canlyniadau profion a llythyrau clinigau, i gael dealltwriaeth glir o gyflwr yr unigolyn, er mwyn gallu lleihau unrhyw risgiau wrth benderfynu a allant bresgripsiynu'n ddiogel. Dylent allu dangos eu bod wedi asesu'r risgiau wrth ddefnyddio crebwyll proffesiynol, er enghraifft drwy gadw cofnod o'u rhesymau dros bresgripsiynu yn yr achosion hyn. (Mae rhagor o wybodaeth yn Adran 3.1)

Beth ydyn ni'n ei olygu wrth hanes meddygol?

Gallai hyn gynnwys casglu gwybodaeth am:

- hanes teuluol a chymdeithasol
- llawdriniaeth ddiweddar
- unrhyw adweithiau negyddol blaenorol neu alergedd at feddyginiaethau

- alergedd at gynnyrch bwyd a blasyddion
- defnydd diweddar o feddyginiaethau eraill, gan gynnwys: meddyginiaethau arferol, meddyginiaethau aciwt (er enghraifft cyrsiau gwrthfotigau byr), meddyginiaethau y gellir eu prynu wrth y cownter, meddyginiaethau amgen a meddyginiaethau wedi eu prynu ar-lein
- meddyginiaethau eraill a chyflyrau meddygol a allai fod yn eu cofnod neu beidio (er enghraifft, cemotherapi, meddyginiaethau wedi eu presgripsiynu at iechyd meddwl a meddyginiaethau gofal-cartref)

Dylent annog y person i fod mor agored â phosibl ynghylch y ffordd y mae'n cymryd ei feddyginiaethau, ac ynghylch a yw wedi cymryd meddyginiaethau yn y ffordd y cawsant eu presgripsiynu.

Dylent asesu risgiau presgripsiynu:

- ar gyfer gwahanol grwpiau o bobl (er enghraifft babanod, plant, pobl ifanc, menywod a merched sydd o oed geni plant, menywod beichiog a menywod sy'n bwydo o'r fron, pobl hŷn) a phobl sydd â gostyngiad yng ngweithrediad yr iau neu'r arenau a'r cyflyrau mae hyn yn eu hachosi
- pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig
- rhai categorïau o feddyginiaethau (er enghraifft cyffuriau a reolir) a phresgripsiynu mewn amgylchiadau penodol
- presgripsiynu mewn gwahanol leoliadau fferyllol

a hefyd, ar gyfer:

- pobl sy'n ceisio cael meddyginiaethau neu driniaeth yn amhriodol
- ceisiadau am symiau mawr, neu geisiadau mynych, am feddyginiaethau - er enghraifft rhai y gellir eu cam-drin, eu gorddefnyddio neu eu camddefnyddio

a gwneud popeth posibl i wneud y risgiau hynny mor isel â phosibl

2. Presgripsiynu'n ddiogel

Dim ond o fewn cyfyngiadau eu gwybodaeth, sgiliau a maes gallu y dylai presgripsiynwyr fferyllol bresgripsiynu. Dylent:

- asesu'r person yn llawn a chynnal archwiliad, pan fo angen, mewn amgylchedd addas sy'n sicrhau preifatrwydd a chyfrinachedd y person
- presgripsiynu'n unol â chanllawiau cenedlaethol a lleol ¹ - ar sail tystiolaeth - pryd bynnag y bo'n bosibl
- wrth bresgripsiynu ac adolygu meddyginiaethau'r person, cyfathrebu a chofnodi unrhyw newidiadau i gofnod meddygol y person gynted â phosibl, i wella diogelwch a gofal cleifion a chysondeb gofal. Dylai hyn gynnwys:

¹ NICE (Lloegr), Scottish Medicines Consortium a Health Improvement Scotland, Department for Health, Social Services and Public Safety (Gogledd Iwerddon), Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan (Cymru) a cholegau meddygol a ffynonellau eraill ag awdurdod

- cofnod o drafodaethau, yn enwedig wrth bresgripsiynu y tu allan i'r canllawiau cenedlaethol neu ar gyfer meddyginiaeth ddirwydded neu 'oddi ar label'
- y rhesymau dros benderfyniadau presgripsiynu, a
- threfniadau ôl-ofal a monitro
- egluro'u rhesymau dros beidio â phresgripsiynu, ac unrhyw opsiynau eraill sydd ar gael i'r person pan ystyrir bod presgripsiynu'n amhriodol
- atgyfeirio'r person at weithiwr gofal iechyd proffesiynol priodol pan fo angen archwilio neu asesu ymhellach
- gallu dangos bod y trefniadau presgripsiynu i gyd yn dryloyw, ac nad oes gwrthdaro buddiannau megis:
 - cyfeiriad presgripsiynu
 - cyfyngu ar ddewis person, neu
 - ddylanwadu'n ormodol neu gamarwain pobl sydd eisiau gwasanaethau fferyllol, yn ddamweiniol neu o fwriad
- gwneud penderfyniadau presgripsiynu ar sail anghenion y person ac nid oherwydd ystyriaethau masnachol neu bwysau gan bobol, cydweithwyr, cyflogwyr neu gwmnïau fferyllol
- ystyried effaith y presgripsiynu ar y person y mae'r presgripsiwn ar ei gyfer
- ystyried pryd gallai fod yn briodol ddal meddyginiaethau yn ôl, dadbresgripsiynu neu newid dôs
- adolygu presgripsiynau aml dro yn rhan o wasanaeth cyflenwi aml dro'r GIG (Cymru a Lloegr), Medicines: Care and Review (MCR)

(yr Alban), neu wrth adolygu meddyginiaethau person. Dylent wirio a fu unrhyw newidiadau yn amgylchiadau'r person, megis arhosiad yn yr ysbyty, neu newid yn ei feddyginiaethau yn sgil ymweliad cartref neu ymweliad ag ysbyty

- yn achos meddyginiaeth ddirwydded neu 'oddi ar label', sicrhau bod digon o dystiolaeth a phrofiad o'i diogelwch ac effeithiolrwydd, a'i phriodoldeb o ran diwallu anghenion y person. Mae rhai meddyginiaethau'n cael eu defnyddio y tu allan i dermau eu trwydded yn gyson, mewn pediatreg a gofal lliniarol er enghraifft.

Beth ydyn ni'n ei olygu wrth feddyginiaethau 'dirwydded' neu 'oddi ar label'?

Defnyddir y term 'meddyginiaeth ddirwydded' i ddisgrifio meddyginiaeth sydd heb drwydded i'w defnyddio yn y DU.

Mae 'meddyginiaethau oddi ar label' yn rhai sydd wedi eu trwyddedu ond sy'n cael eu defnyddio y tu allan i dermau eu trwydded yn y DU.

Efallai y bydd angen meddyginiaeth 'oddi ar label' i ddiwallu anghenion y claf, pan, enghraifft:

- mai dim ond fformwleiddiad ar gyfer 'oedolion' sydd ar gael, a'r claf yn blentyn, neu
- nad yw'r feddyginiaeth drwyddedig addas ar gael oherwydd prinder meddyginiaethau

Efallai na fydd wastad yn briodol egluro bod y feddyginiaeth yn un ddirwydded: mewn

argyfyngau, er enghraifft, neu os yw'n debygol o achosi tralod i'r claf neu'r gofalwr. I gael rhagor o wybodaeth am feddyginiaethau didrwydded, gweler ein cyhoeddiad Canllawiau ar gyfer fferyllfeydd cofrestredig sy'n paratoi meddyginiaethau didrwydded Awst 2018 ac adran 'Ffynonellau gwybodaeth eraill' ar ddiwedd y ddogfen hon

3. Dilyn i fyny

Dylai'r presgripsiynydd fferyllol:

- ddarparu gwybodaeth berthnasol - gan gynnwys taflenni gwybodaeth i gleifion - mewn ffordd y gall y person ei deall, a gwirio ei fod wedi deall
- penderfynu pa fonitro sydd ei angen ar ôl presgripsiynu a chaniatáu mynediad i'r person at y monitro hwn er mwyn sicrhau cysondeb gofal. Gallai hyn fod, er enghraifft, drwy roi unrhyw ffurflenni perthnasol i'r person os oes angen monitro cyffur therapiwtig ar y presgripsiwn
- defnyddio mecanweithiau adrodd ar gyfer adweithiau y credir eu bod yn rhai andwyol, megis **Cynllun Adrodd y Cerdyn Melyn**, a sicrhau bod y person yn gwybod sut i adrodd am adweithiau fel y rhain
- defnyddio mecanweithiau adrodd ar gyfer materion diogelwch: System Adrodd a Dysgu Genedlaethol y GIG (Cymru a Lloegr), a systemau adrodd lleol megis byrddau iechyd rhanbarthol GIG yr Alban.
- gweithredu pan fo angen atgyfeiriad brys at weithiwr gofal iechyd arall
- sicrhau bod y person sy'n ceisio gofal yn gwybod â phwy i gysylltu os bydd ganddo gwestiynau neu bryderon
- cynllunio adolygiadau dilynol addas i ddiwallu anghenion y person sy'n ceisio gofal
- asesu a monitro canlyniad y presgripsiynu i sicrhau bod gofal diogel ac effeithiol yn cael ei ddarparu
- dweud wrth y person i ddychwelyd i'r presgripsiynydd fferyllol os bydd ei gyflwr yn gwaethygu, neu os bydd symptomau newydd neu newidiadau i'r cyflwr, er mwyn sicrhau na cholli unrhyw gyflyrau difrifol ('rhwyd ddiogelwch')

2. Sicrhau'r wybodaeth ddiweddaraf a phresgripsiynu o fewn lefel eich gallu

Gall presgripsiynwyr fferyllol bresgripsiynu mewn llawer o feysydd clinigol a therapiwtig, naill ai'n arbenigol neu'n gyffredinol. Wrth i'r rolau hyn barhau i ddatblygu ac ehangu, rhaid i bresgripsiynwyr fferyllol gynnal, datblygu a defnyddio'r wybodaeth a'r sgiliau sy'n berthnasol i'w rôl a'u maes presgripsiynu, er mwyn sicrhau bod y person yn derbyn gofal ddiogel a phriodol ac sydd wedi ei seilio ar yr arferion mwyaf diweddar. Dylent ddefnyddio **Fframwaith Galluedd Presgripsiynwyr**, y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol, **Safonau hyfforddiant ac addysg cychwynnol presgripsiynwyr fferyllol** y CFfC a'r deilliannau dysgu, yn ogystal â ffynonellau gwybodaeth eraill², i'w helpu i wybod pa fylchau sydd yn eu gwybodaeth.

Waeth beth fo cyflwr y person a'r meddyginiaethau sydd ar gael i reoli ei ofal iechyd, rhaid i bresgripsiynwyr fferyllol bresgripsiynu o fewn cyfyngiadau eu gwybodaeth, sgiliau a galluoedd clinigol. Mae'n rhaid iddynt:

- gynnal y galluoedd sy'n benodol at eu rôl fel presgripsiynwyr a chwmpas eu hymarfer, ac
- adfyfrio ar gymhwyso eu gwybodaeth a sgiliau i sicrhau eu bod yn meddu ar y wybodaeth ddiweddaraf.

Gall presgripsiynwyr fferyllol gael, a rhoi, cefnogaeth i'w cymheiriaid. Gallai hyn fod, er enghraifft, wrth weithio mewn tîm amlddisgyblaethol sy'n eu helpu i gyfathrebu, dysgu a datblygu ochr yn ochr â gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill. Gallai hyn hefyd gynnwys cael perthynas waith glos gyda'u goruchwylydd meddygol neu fentor wedi cymhwyso.

Pan fo cyflwr person neu'r meddyginiaethau sy'n cael eu presgripsiynu y tu allan i gwmpas ymarfer presgripsiynydd fferyllol, rhaid iddo ystyried budd gorau'r person a phenderfynu a oes ganddo'r gallu i bresgripsiynu. Os nad oes ganddo'r gallu i bresgripsiynu rhaid iddo atgyfeirio'r person at bresgripsiynydd priodol arall.

Ar ôl dychwelyd i bresgripsiynu ar ôl egwyl, neu wrth bresgripsiynu mewn maes clinigol ychwanegol neu wahanol, dylai presgripsiynwyr ymgymryd ag unrhyw hyfforddiant ychwanegol sydd ei angen arnynt. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, gwblhau **cwrs dychwelyd at bresgripsiynu**, cysgodi gweithiwr proffesiynol arall neu gael profiad gwaith mewn maes presgripsiynu newydd. Dylai presgripsiynwyr fferyllol hefyd ymgylfarwyddo gydag adnoddau perthnasol, a sicrhau eu bod yn alluog, er

² Diweddariadau diogelwch cyffuriau MHRA, Gwasanaeth Hysbysiadau Canolog y GIG, **Meddyginiaethau a phresgripsiynu**, NICE **the electronic Medicines Compendium**, taflenni gwybodaeth i gleifion (PILs), British National Formulary (BNF) a'r British National Formulary for Children (BNFC), fformiwlarioedd lleol a chanllawiau clinigol.



enghraifft, i ddefnyddio fframwaith galluedd yr RPS i arddangos eu gallu mewn maes newydd.

Dylai presgripsiynwyr fferyllol gofnodi'r gweithgareddau maen nhw wedi ymgymryd â nhw, er enghraifft drwy gadw portffolio gyda thystiolaeth o feysydd ymarfer wedi eu goruchwylio ac unrhyw hyfforddiant ac asesiadau.

Rhaid i bresgripsiynwyr fferyllol sicrhau eu bod yn alluog yn y maes presgripsiynu newydd. Rhaid iddynt hefyd wirio bod eu hyswiriant indemniad proffesiynol ar waith ar eu cyfer mewn rolau presgripsiynu newydd neu wahanol, a rhaid iddynt adnewyddu'r yswiriant i sicrhau hyn.

I gael rhagor o wybodaeth ynghylch portffolio tystiolaeth wrth ddychwelyd i ymarfer, gweler adran **dychwelyd i'r gofrestr** ein gwefan.

Dylai presgripsiynwyr fferyllol sicrhau bod peth o'u cofnodion aiddilysu'n ymwneud yn uniongyrchol â'r rôl fel presgripsiynydd fferyllol. Mae hyn yn cynnwys sicrhau'r wybodaeth ddiweddaraf o ran newidiadau yn y gyfraith, yn ogystal ag yn y meysydd therapiwtig maen nhw'n presgripsiynu ynddynt. Dylai presgripsiynwyr fferyllol ddefnyddio **fframwaith aiddilysu'r CFFC** i gynllunio a dangos bod ganddynt y wybodaeth ddiweddaraf o ran canllawiau presgripsiynu.

Er mwyn gwella eu sgiliau presgripsiynu a'r gofal maen nhw'n ei roi, dylai presgripsiynwyr fferyllol gael person arall i archwilio a monitro eu

presgripsiynu'n rheolaidd. Gallai hyn gynnwys adolygiad cymheiriaid yn canolbwyntio ar bresgripsiynu. Byddai hyn yn adolygu

deilliannau clinigol eu presgripsiynu ac yn adlewyrchu ac adfyfrio ar unrhyw adborth, gwallau neu gwynion a dderbyniwyd.

Gall presgripsiynwyr weithio y tu allan i leoliadau'r GIG ac mewn mannau lle mae trefniadau llywodraethu clinigol yn wahanol, neu'n cael eu dilyn mewn ffordd wahanol. Os felly, nhw sy'n gyfrifol am ddeall y trefniadau llywodraethu maen nhw'n gweithio o'u mewn a sicrhau eu bod yn alluog i ymarfer.

I gael rhagor o wybodaeth am hyfforddi gweler 'Ffynonellau gwybodaeth eraill' ar ddiwedd y ddogfen hon a **chyrsgiau achrededig ar gyfer hyfforddiant presgripsiynwyr fferyllol** ar ein **gwefan**.

3. Gweithio mewn partneriaeth gyda gweithwyr gofal iechyd eraill a phobl sy'n ceisio gofal

Rhaid i bresgripsiynwyr fferyllol gyfathrebu'n effeithiol, a gweithio mewn partneriaeth gyda gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill a phobl sy'n ceisio gofal, i ddarparu gofal diogel ac effeithiol.

Rhaid iddynt fod yn agored ac yn onest gyda'r person sy'n ceisio gofal a'r bobl maen nhw'n presgripsiynu ar eu cyfer. Dylent sicrhau bod pobl yn gwybod eu bod yn presgripsiynu fel presgripsiynydd fferyllol, yn rhan o drefniant naill ai gyda'r GIG neu mewn trefniant preifat, ac am unrhyw gostau y gellid eu codi.

Rhaid i bresgripsiynwyr fferyllol sicrhau eu bod yn cynnal preifatrwydd a chyfrinachedd person, yn enwedig wrth gynnal ymgynghoriadau dros y ffôn neu o bell. Mae hyn yn rhan hollbwysig o'r berthynas rhwng y presgripsiynydd fferyllol a'r person sy'n ceisio gofal.

I gael rhagor o wybodaeth ynghylch cyfrinachedd, gweler ***Ar waith: Canllawiau ar gyfrinachedd*** Mehefin 2018.

3.1 Gweithio gyda phobl sy'n ceisio gofal a rhannu gwybodaeth gyda'r presgripsiynydd arferol

Mae meddu ar yr holl wybodaeth berthnasol sydd ar gael am berson yn hollbwysig i sicrhau presgripsiynu diogel. Gall y wybodaeth hon ddod gan:

- y person

- presgripsiynydd arferol y person, neu
- o gofnod meddygol y person

Os yw rhywedd rhywun yn wahanol i'r hyn a ddywed ei gofnodion, dylai presgripsiynwyr fferyllol gyfathrebu mewn ffordd sydd â'r person yn ganolog iddi a gyda pharch.

Rhaid i bresgripsiynwyr fferyllol ofyn i'r person am gydsyniad i gael mynediad at ei gofnodion meddygol, neu i gael gwybodaeth ddibynadwy ynghylch iechyd a meddyginiaethau'r person gan ei bresgripsiynydd arferol os oes ganddo un. I sicrhau gofal â phobl yn ganolog iddo, rhaid iddynt roi gwybodaeth eglur, er mwyn i'r person sy'n derbyn gofal allu gwneud penderfyniad doeth, a rhaid trafod unrhyw opsiynau eraill pan nad yw presgripsiynu'n briodol. Dylent gadw cofnod o bob penderfyniad, gan gynnwys pryd y penderfynwyd peidio â phresgripsiynu a pham.

Ar gyfer pob ymgynghoriad presgripsiynu, rhaid i bresgripsiynwyr fferyllol ddefnyddio'u crebwyll proffesiynol a gweithredu er budd gorau'r person i benderfynu a oes ganddynt y wybodaeth sydd ei hangen i allu presgripsiynu'n ddiogel. Efallai y bydd adegau pan:

- na fydd ganddynt fynediad at gofnodion meddygol person nac at wybodaeth gofal eilaidd neu arbenigol

-
-



- bydd y person yn gwrthod rhoi caniatâd i gysylltu â'i bresgripsiynydd arferol i gael rhagor o wybodaeth
- nad oes gan y person bresgripsiynydd arferol
- fo meddyginiaeth wedi ei phresgripsiynu gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol arall
- fo person yn dod o wlad y tu allan i'r DU

Rhaid i'r presgripsiynydd fferyllol wedyn benderfynu a yw'n mynd i bresgripsiynu ai peidio. Bydd angen iddo ystyried budd gorau'r person, a gwneud asesiad ar sail risg ynghylch a all bresgripsiynu'n ddiogel a chreu cofnod clir, sy'n nodi'r cyfiawnhad dros bresgripsiynu neu beidio â phresgripsiynu.

Dylid rhannu gwybodaeth presgripsiynu gyda phresgripsiynydd y person, neu eraill sydd ynghlwm wrth ei ofal, fel bod y person yn derbyn gofal diogel ac effeithiol. Dylai presgripsiynwyr fferyllol ddefnyddio'u crebwyll proffesiynol wrth benderfynu pa wybodaeth i'w rhannu.³ Mae hyn yn arbennig o bwysig wrth bresgripsiynu meddyginiaethau sy'n dueddol o gael eu cam-drin, lle mae risg mynd yn gaeth iddynt, neu pan fo monitro parhaus yn bwysig.

³I gael canllawiau ynghylch darparu gwasanaethau iechyd rhywiol priodol ac o bell, gweler 'Ffynonellau gwybodaeth eraill' ar ddiwedd y ddogfen hon.

Dylai presgripsiynwyr fferyllol sicrhau bod y person wedi rhoi caniatâd ac yn deall pa wybodaeth fydd yn cael ei rhannu gyda'r presgripsiynydd neu weithiwr gofal iechyd proffesiynol arall. Dylai'r presgripsiynydd fferyllol roi unrhyw wybodaeth glinigol berthnasol yn gywir i'r presgripsiynydd arall cyn gynted â phosibl, er mwyn diweddarau'r cofnod meddygol. Gallai hyn fod, er enghraifft: gwybodaeth am feddyginiaethau sydd wedi eu presgripsiynu, newidiadau mewn dôs, y rhesymau dros unrhyw newidiadau, ac unrhyw ofnion monitro pellach. Dylid cofnodi'r wybodaeth hon yn glir.

Pan fo gofalywyr yn gofyn am wybodaeth ynghylch meddyginiaethau ar ran person, dylai'r presgripsiynydd fferyllol sicrhau bod ganddo ganiatâd y person i ddatgelu'r wybodaeth hon. Os nad yw'r person yn meddu ar y gallu i roi'r cydsyniad hwn, rhaid i'r presgripsiynydd fferyllol benderfynu a fyddai rhannu'r wybodaeth er budd gorau'r person.

3.2 Gweithio mewn partneriaeth gyda gweithwyr gofal iechyd eraill

Rhaid i bresgripsiynwyr fferyllol dderbyn cyfrifoldeb dros eu hymarfer a rhoi arweiniad i'r bobl maen nhw'n gweithio gyda nhw. Gallai un enghraifft o hyn fod yn waith i helpu cydweithwyr i ddatblygu crebwyll effeithiol a sgiliau arwain, i wella eu presgripsiynu.

Dylai presgripsiynwyr fferyllol sy'n presgripsiynu ar gyfer pobl mewn mannau fel cartrefi, cartrefi gofal, preswyl neu nyrsio, neu hosbisau, ofalu eu bod yn presgripsiynu ar gyfer anghenion penodol y person yn unig, ac nid er hwylustod i eraill sydd ynghlwm wrth eu gofal.

Dylent gyfathrebu â'r person neu ei ofalwr, a rhoi'r wybodaeth a'r cyngor sydd eu hangen arnynt. Rhaid iddynt sicrhau bod y person a'r gofalwr yn deall unrhyw wybodaeth a roddir.

Pan fo person yn symud rhwng lleoliadau gofal, dylai presgripsiynwyr fferyllol wirio'r wybodaeth a ddarperir. Rhaid iddynt sicrhau bod yr holl wybodaeth angenrheidiol am feddyginiaethau'r person yn cael ei chofnodi'n gywir.

Pan fo presgripsiynydd fferyllol yn parhau â thriniaeth a gafodd ei phresgripsiynu gan bresgripsiynydd arall, mae'n dal yn atebol yn broffesiynol ac yn gyfrifol am y penderfyniadau presgripsiynu a wna. Rhaid iddo sicrhau bod y feddyginiaeth a'r presgripsiwn yn briodol, yn diwallu anghenion y person ac yn gallu sicrhau cysondeb gofal⁴ iddo.

Pan fo'r cyfrifoldeb dros ofal person yn cael ei rannu gyda chydweithiwr, er enghraifft wrth weithio'n rhan o dîm amlddisgyblaethol, rhaid i bresgripsiynwyr fferyllol sicrhau bod llinellau

atebolrwydd clir a'u bod yn gallu ysgwyddo'u cyfrifoldebau nhw. Os mai nhw sy'n gyfrifol am ddiagnosis neu asesiad cychwynnol person, rhaid iddynt ddod i wybod bob darn o wybodaeth sydd ei hangen i allu presgripsiynu. Dylai unrhyw benderfyniadau a wneir ynghylch ôl-ofal a monitro fod er budd gorau'r person, a chael eu cofnodi'n glir a'u cyfathrebu i bawb sydd ynghlwm wrth y trefniant.

Os yw presgripsiynydd fferyllol yn goruchwyllo presgripsiynydd dan hyfforddiant, fel ymarferwr presgripsiynu dynodedig (YPD), rhaid iddo ddangos arweiniad a goruchwyllo'n briodol i sicrhau y darperir gofal diogel ac effeithiol.

I gael rhagor o wybodaeth am rôl yr YPD gweler 'Ffynonellau gwybodaeth eraill' ar ddiwedd y ddogfen hon.

⁴ Ystyr 'cysondeb gofal' yw ansawdd gofal dros gyfnod. Mae'n broses lle mae tîm gofal claf, dan arweiniad y Meddyg Teulu, yn cydweithio i ddarparu gofal iechyd diogel ac effeithiol drwy gydol y broses drin.

4. Ystyriaethau presgripsiynu a chrebwyll clinigol

4.1 Presgripsiynu ar eich cyfer chi'ch hun, eich teulu a'ch ffrindiau

Rhaid i bresgripsiynwyr fferyllol beidio â phresgripsiynu ar eu cyfer nhw eu hunain nac unrhyw un y mae ganddynt berthynas bersonol agos ag ef neu hi (megis aelodau'r teulu, ffrindiau neu gydweithwyr) heblaw am mewn amgylchiadau eithriadol. Mae hyn yn arbennig o bwysig yn achos cyffuriau a reolir a chyffuriau y mae tuedd eu camddefnyddio.

Mae amgylchiadau eithriadol lle gallai fod cyfiawnhad dros presgripsiynydd fferyllol yn presgripsiynu ar gyfer rhywun y mae ganddo berthynas bersonol agos ag ef/hi yn cynnwys:

- pan nad oes presgripsiynydd arall ar gael i asesu cyflwr clinigol y person, ac y byddai oedi wrth presgripsiynu yn peryglu bywyd neu iechyd y person neu'n ei roi mewn poen neu drallod annerbyniol, neu
- pan fo angen y driniaeth yn ddi-oed i:
 - achub bywyd
 - atal dirywiad difrifol yn iechyd a lles y person, neu
 - leddfu poen neu drallod nad oes modd ei reoli mewn unrhyw ffordd arall

Yn yr amgylchiadau hyn, os bydd presgripsiynwyr fferyllol yn presgripsiynu ar eu cyfer eu hunain neu rywun y mae ganddynt berthynas bersonol agos ag ef/hi, rhaid iddynt:

- allu cyfiawnhau eu penderfyniad i bresgripsiynu

- ystyried a yw'r person y maent yn presgripsiynu ar ei gyfer yn dylanwadu neu'n niweidio eu crebwyll proffesiynol
- atgyfeirio at bresgripsiynydd arall os nad ydynt yn hyderus y dylent bresgripsiynu
- cadw cofnod clir, gan gynnwys natur y berthynas â'r person a'r rhesymau pam y bu'n angenrheidiol presgripsiynu, fel bod llwybr archwilio cadarn.

4.2 Presgripsiynu a chyflenwi

Dylai presgripsiynwyr fferyllol gadw'r presgripsiynu cychwynnol ar wahân i'r broses gyflenwi meddyginiaethau. Mae hyn er mwyn amddiffyn diogelwch y person a chadw risgiau mor isel â phosibl. Pan yn bosibl, dylai ail berson cymwys fod ynghlwm wrth y gwaith o gynnal gwiriad terfynol a'r gwiriad ar gyfer priodoldeb clinigol. Dylai presgripsiynwyr fferyllol ddefnyddio'u crebwyll proffesiynol wrth ystyried a ddylent bresgripsiynau a chyflenwi neu beidio. Dylai presgripsiynwyr fferyllol gael gweithdrefnau a threfniadau cadarn yn eu lle a chydbwysu risg cyflenwi yn erbyn peidio â chyflenwi. Dylid sicrhau bod gan berson y dewis i fynd â'r presgripsiwn at fferyllfa arall i gyflenwi'r meddyginiaethau.

Ymhob achos, rhaid gwneud unrhyw benderfyniad i bresgripsiynu a chyflenwi er budd gorau'r person, a rhaid i'r presgripsiynydd fferyllol sicrhau na pheryglir iechyd a diogelwch y person.

Efallai y bydd amgylchiadau lle bydd yn rhaid cyflenwi'r feddyginiaeth i gyd ar yr un pryd. Er enghraifft: mewn argyfwng, mewn rhai sefyllfaoedd ysbyty, mewn ardaloedd pellennig neu wledig lle nad oes fferylllydd arall ar gael, neu pan fo angen meddyginiaeth ar frys ar berson. Os bydd presgripsiynydd yn presgripsiynu, yn cynnal gwiriad clinigol ac yn cyflenwi'r feddyginiaeth i gyd ar yr un pryd, rhaid i hyn fod o fewn ei allu a chwmpas ei ymarfer.

Rhaid iddo greu cofnod o'r presgripsiynu a'r rhesymau dros y penderfyniadau presgripsiynu.

Gall presgripsiynydd fferyllol hefyd weinyddu meddyginiaeth - er enghraifft, mewn ysbyty neu leoliad arall. Os digwydd hyn, rhaid sicrhau y darperir gofal sydd â phobl yn ganolog iddo, ac mai gofal y person yw'r flaenoriaeth gyntaf. Rhaid i bresgripsiynwyr fferyllol amddiffyn diogelwch claf, a dylai weithredu prosesau sy'n sicrhau bod risg mor isel â phosibl. Os bydd presgripsiynydd fferyllol yn gweinyddu meddyginiaethau, neu'n dirprwyo'r gwaith o weinyddu meddyginiaethau i berson arall, rhaid iddo sicrhau bod ganddo fe neu'r person arall hwnnw yr hyfforddiant addas a gofynnol a'r sgiliau angenrheidiol i weinyddu'n ddiogel.

4.3 Presgripsiynu cynnyrch cosmetig anllawfeddygol

Mae mwy a mwy o fferyllwyr esthetig erbyn hyn yn presgripsiynu cynnyrch cosmetig meddyginiaethol anllawfeddygol, megis tocsin botulinum, a theclynnau meddygol. Mae gan bresgripsiynwyr fferyllol rôl bwysig yn y gwaith o sicrhau bod presgripsiynu'n ddiogel yn y maes hwn, a sicrhau bod risgiau i berson mor isel â phosibl. Mae adran 1 y canllaw hwn, ynghylch presgripsiynu'n ddiogel, yn berthnasol i'r maes

hwn. Rhaid iddynt hefyd ddefnyddio'u crebwyll proffesiynol a chlinigol, fel eu bod yn gweithredu er budd gorau'r person a dim ond yn presgripsiynu meddyginiaethau a chynnyrch cosmetig anllawfeddygol sy'n briodol, a rhoi mesurau diogelwch ychwanegol ar waith pan fo angen.

Rhaid i bresgripsiynwyr fferyllol sy'n presgripsiynu, cyflenwi a gweinyddu cynnyrch cosmetig anllawfeddygol fod wedi eu hyfforddi'n briodol o ran y cynnyrch hwnnw a meddu ar brofiad o'u presgripsiynu'n ddiogel. Rhaid iddynt bresgripsiynu a gweinyddu cynnyrch cosmetig anllawfeddygol yn unol â chanllawiau arfer dda, a dim ond ar ôl archwilio'r person yn gorfforol. O'r herwydd, nid yw'n briodol cynnal ymgynghoriad o bell ar gyfer cynnyrch cosmetig anllawfeddygol.

Rhaid i bresgripsiynwyr fferyllol deimlo'n hyderus bod y gwasanaethau maen nhw'n eu presgripsiynu yn cyflawni'r gofynion cofrestru a rheoleiddio perthnasol. Rhaid iddynt sicrhau bod unrhyw weithdrefnau'n cael eu cynnal mewn ffordd briodol a phroffesiynol, ac mewn amgylchedd sy'n ddiogel ac yn briodol at y gwaith sy'n cael ei wneud. Rhaid i bresgripsiynwyr fferyllol sicrhau bod unrhyw un y maen nhw'n dirprwyo'r gwaith o weinyddu'r cynnyrch iddo yn weithiwr gofal iechyd proffesiynol sydd â'r hyfforddiant a'r sgiliau addas i weinyddu a chynnal y gweithdrefnau. Pan fo presgripsiynwyr fferyllol yn dirprwyo'r gwaith o weinyddu maen nhw'n parhau i fod yn gyfrifol am oruchwylio'r person a chanlyniad diogel i'r driniaeth. Mae hyn yn cynnwys asesu'r canlyniadau, unrhyw ymyriadau ac adrodd am faterion sy'n mynd o chwith.

I gael rhagor o wybodaeth ynghylch gofynion hyfforddiant a chymwysterau, a chanllawiau arfer dda ar gyfer presgripsiynu cynnyrch cosmetig anllawfeddygol, gweler 'Ffynonellau gwybodaeth eraill' ar ddiwedd y ddogfen hon.

Cyn presgripsiynu neu weinyddu cynnyrch cosmetig anllawfeddygol, rhaid i bresgripsiynwyr fferyllol:

- feddu ar yswiriant indemniad proffesiynol ar gyfer pob gweithgaredd
- cael cydsyniad y person i wneud y gwaith
- ystyried a oes gan y person y gallu i gydsynio i'r driniaeth, yn enwedig os yw'n berson ifanc, a
- gallu rheoli unrhyw argyfyngau meddygol a allai godi yn sgil triniaeth gosmetig - er enghraifft, adwaith negyddol i gyffuriau - a rheoli unrhyw gymhlethdodau a allai godi o'r driniaeth

Dylai presgripsiynwyr fferyllol hefyd:

- fod yn gyfarwydd â'r driniaeth, gan gynnwys:
 - yr hyn sy'n rhan ohoni
 - faint o amser fydd ei angen ar gyfer y broses
 - a yw'r cynnyrch yn briodol ac yn bodloni canllawiau cymwys, ac
 - a oes opsiynau eraill ar gael
- ystyried anghenion seicolegol y person, a
- bod yn barod i beidio â phresgripsiynu'r driniaeth os ydynt o'r farn ei bod yn amhriodol, neu os yw'r person yn dymuno cael rhagor o amser i ystyried y driniaeth. Mewn achos fel hyn, dylai'r presgripsiynydd

fferyllol drafod opsiynau eraill a chofnodi'r penderfyniadau

Rhaid i bresgripsiynwyr fferyllol weithio gyda'r person i sicrhau bod gan y person y wybodaeth berthnasol sydd ei hangen i wneud penderfyniad a dewis doeth ynghylch bwrw ymlaen â'r driniaeth neu beidio. Dylai presgripsiynwyr fferyllol sicrhau bod y person:

- yn meddu ar ddisgwyliadau realistig ynghylch y canlyniadau posibl
- yn deall yn glir risgiau a chymhlethdodau posibl y driniaeth a gwybod am unrhyw gynnyrch neu driniaeth arall sydd ar gael a allai sicrhau'r canlyniadau maen nhw'n eu dymuno â llai o risg
- yn meddu ar ddigon o wybodaeth i sicrhau cysondeb gofal
- yn gwybod pa ôl-ofal fydd yn cael ei ddarparu, gan gynnwys asesiad o'r canlyniad, ac
- yn gwybod sut a ble i gael rhagor o help os bydd adwaith negyddol neu os aiff unrhyw beth o le

Os bydd y person yn cydsynio, dylai'r presgripsiynydd fferyllol sôn wrth bresgripsiynydd arferol y person am unrhyw wybodaeth berthnasol, pan yn briodol.

4.4 Presgripsiynu ar-lein a'r mesurau diogelwch ar gyfer presgripsiynu rhai meddyginiaethau penodol

Yn fwyfwy aml, mae pobl yn defnyddio presgripsiynwyr fferyllol o bell, yn hytrach nag yn y ffordd wyneb-yn-wyneb draddodiadol. Bydd hyn naill ai dros y ffôn neu drwy gyswllt

fideo, neu'n fwy arferol ar-lein drwy wasanaethau presgripsiynu. Yn yr achosion hyn, yn ogystal â chadw at adran 1 y canllaw hwn ar bresgripsiynu'n ddiogel, rhaid i bresgripsiynwyr fferyllol sicrhau na chyfaddawdir diogelwch cleifion. Mae hyn yn arbennig o bwysig pan fo'r person yn un sy'n agored i niwed neu'n wynebu risg o fynd yn gaeth i rai meddyginiaethau penodol. Rhaid i bresgripsiynwyr fferyllol wneud asesiad clinigol digonol a diogel, cyfathrebu'n effeithiol a chael cydsyniad y person i gael mynediad at ei gofnod meddygol. Mae'n arbennig o bwysig wrth bresgripsiynu o bell bod presgripsiynwyr fferyllol yn asesu galluedd y person sy'n ceisio gofal.

Mae presgripsiynu meddyginiaethau o bell, naill ai'n rhan o wasanaeth ar-lein neu'n annibynnol dros y rhyngwyd, yn creu risgiau gwahanol i'r rhai sy'n bresennol mewn ymgynghoriadau wyneb-yn-wyneb. Mae rhai meddyginiaethau'n amhriodol eu presgripsiynu ar-lein (cynnyrch cosmetig anllawfeddygol, er enghraifft), a dylai bod mesurau diogelwch ychwanegol ar waith ar gyfer rhai meddyginiaethau.

O ystyried y risgiau gwirioneddol i ddiogelwch cleifion, rhaid i bresgripsiynwyr fferyllol beidio â gwneud penderfyniadau presgripsiynu ynghylch meddyginiaethau risg uchel ar sail holiaduron, heb fynediad at hanes meddygol person neu ganiatâd i gysylltu â phresgripsiynydd arferol y person. (Mae meddyginiaethau risg uchel yn cynnwys, er enghraifft, rhai sy'n dueddol o gael eu cam-drin, eu gorddefnyddio neu eu camdefnyddio, neu pan fo risg o fynd yn gaeth iddyn nhw a phan fo monitro parhaus yn bwysig). Rhaid cael trefniadau rheoli risgiau a diogelu ar waith, neu gallai aelodaeth y presgripsiynydd fferyllol gael ei beryglu.

Mae presgripsiynwyr fferyllol yn atebol dros eu penderfyniadau presgripsiynu, gan gynnwys pan fônt yn presgripsiynu o bell. Dim ond pan fo ganddynt wybodaeth ddigonol am iechyd y person a'r hanes meddygol a phresgripsiynu llawn y dylent bresgripsiynu: er enghraifft, drwy ddefnyddio cofnodion meddygol y person a ffynonellau gwybodaeth eraill i weld hanes alergeddau ac adweithiau.

Rhaid iddynt deimlo'n hyderus bod y meddyginiaethau'n ateb gofynion y person. Dylai'r presgripsiynydd fferyllol a'r person ystyried unrhyw driniaeth gyda'i gilydd yn ystod yr ymgynghoriad.

Os nad yw'r presgripsiynydd fferyllol wedi cynnal ymgynghoriad wyneb-yn-wyneb gyda'r person, dylai egluro wrth y person sut bydd yr ymgynghoriad o bell yn cael ei gynnal.

Rhaid i bresgripsiynwyr fferyllol sy'n presgripsiynu ar gyfer pobl mewn gwledydd eraill gadw at unrhyw gyfreithiau sydd ar waith. Mae cyfyngiadau gwahanol ar waith mewn gwahanol wledydd, ac nid yw cyflenwi meddyginiaethau ar-lein yn gyfreithlon mewn rhai gwledydd.

Er y gall presgripsiynwyr fferyllol bresgripsiynu meddyginiaethau didrwydded neu 'oddi ar label', wrth bresgripsiynu ar gyfer person sydd dramor rhaid iddynt sicrhau bod gan y feddyginiaeth maen nhw'n ei darparu awdurdodaeth farchnata ar gyfer y wlad y mae'r person ynnddi. Mae hyn yn ofyniad cyfreithiol.⁵ Dylent sicrhau eu bod wedi ystyried enw trwyddedig y cynnyrch, ei 'ddynodiadau', (yr hyn y defnyddir e far ei gyfer), a'r dôs a argymhellir

⁵Rheoliad 28 Rheoliadau Meddyginiaethau Dynol (Diwygiad) 2013

yn y wlad honno, ac wedi sicrhau y gall y person gael y feddyginiaeth yno. Dylai presgripsiynwyr fferyllol ystyried sut y byddant nhw neu weithwyr gofal iechyd proffesiynol lleol y person yn monitro'r person.

Rhaid i bresgripsiynwyr fferyllol asesu a rheoli unrhyw risgiau sydd ynghlwm wrth eu presgripsiynu a'r gofal y gallant ei ddarparu, a sicrhau bod yswiriant indemniad digonol ar waith. Mae hyn yn berthnasol pwy bynnag y maen nhw'n presgripsiynu ar eu cyfer ac ym mha le bynnag y mae'r person hwnnw. Cyn presgripsiynu o bell, dylai presgripsiynwyr fferyllol ystyried:

- sut gallant gadarnhau bod y person yn dweud y gwir am bwy ydyw, drwy gynnal gwiriad adnabod addas⁶ (er enghraifft drwy gadw at y **Safon Dilysu ar gyfer Gwasanaethau Iechyd a Gofal Digidol**, sy'n cynnig dull cyson o wirio hunaniaeth ymhlith gwasanaethau iechyd a gofal ar-lein)
- y cyfyngiadau ar gyfathrebu effeithiol gyda'r person drwy ymgynghori o bell (er enghraifft, peidio â gallu gweld symptomau corfforol neu ddarllen iaith y corff, peidio â gallu holi cwestiynau dilynol)
- pa feddyginiaethau sy'n briodol eu presgripsiynu a'u cyflenwi o bell, gan gynnwys ar-lein

⁶I gael canllawiau ynghylch gwiriadau hunaniaeth ar gyfer darparu gwasanaethau iechyd rhywiol ar-lein ac o bell, gweler 'Ffynonellau gwybodaeth eraill' ar ddiwedd y ddogfen hon.

- a allant asesu a oes gan y person y gallu i wneud penderfyniadau am ei feddyginiaethau
- a oes angen archwiliad corfforol neu asesiad o fath arall
- gyda phwy y dylai'r person gysylltu os oes ganddo unrhyw gwestiynau neu os yw'n dymuno trafod rhywbeth
- sut maen nhw'n adnabod ceisiadau amhriodol - drwy adnabod ceisiadau lluosog i'r un cyfeiriad neu archebion yn defnyddio'r un manylion talu. Mae hyn yn cynnwys cyfuniadau amhriodol o feddyginiaethau a cheisiadau sy'n rhy fawr neu'n rhy aml

Mesurau diogelwch ar gyfer presgripsiynu rhai meddyginiaethau penodol

Mae rhai categorïau o feddyginiaethau'n amhriodol eu presgripsiynu neu eu cyflenwi o bell oni bai bod mesurau diogelwch pellach wedi eu rhoi ar waith i sicrhau eu bod yn glinigol briodol. Mae'r categorïau'n cynnwys:


- **gwrthficrobau (gwrthfiotigau)** Mae'n bwysig rheoli'r defnydd sydd arnynt, i helpu i arafu cynnydd ymwrthedd i gyffuriau a sicrhau bod gwrthficrobau'n parhau'n driniaeth effeithiol. Dim ond yn unol â chanllawiau arfer dda y dylid cyflenwi'r rhain, gan ystyried canllawiau stiwardiaeth gwrthficrobau⁷ sy'n berthnasol i'r person a'i leoliad.

⁷ Public Health England **antimicrobial prescribing and stewardship competencies** 2013, Public Health England **Summary of antimicrobial prescribing guidance – managing common infections** 2019. Health

- **meddyginiaethau sy'n dueddol o gael eu cam-drin, eu gorddefnyddio neu eu camddefnyddio, neu lle mae risg mynd yn gaeth iddynt, neu pan fo monitro parhaus yn bwysig.** Er enghraifft: opioidau, cyffuriau tawelu, cyffuriau carthio a gabapentinoidau
 - meddyginiaethau sydd angen eu monitro neu eu rheoli'n barhaus. Er enghraifft, meddyginiaethau â mynegai therapiwtig cul⁸, megis lithium a warfarin; a meddyginiaethau a ddefnyddir i drin diabetes, asthma, epilepsi a chyflyrau iechyd meddwl. Enghraifft benodol o feddyginiaeth sydd angen ei monitro a'i rheoli'n barhaus yw sodium valporate, a ddefnyddir i drin epilepsi ac anhwylder deubegwn ond sy'n cyflwyno risg uchel o broblemau camffurfiad a datblygiadol i fabanod yn y groth.
- Mesurau diogelwch i'w rhoi ar waith os yw'r categorïau uchod o feddyginiaethau'n cael eu cyflenwi ar-lein**
- Os yw presgripsiynydd fferyllol yn penderfynu presgripsiynu o bell neu weithio ar-lein gyda gwasanaeth presgripsiynu ar-lein, ni ddylid presgripsiynu'r categorïau uchod o feddyginiaethau oni bai bod:
- gan y presgripsiynydd brosesau cadarn ar waith i wirio hunaniaeth y person, i sicrhau bod y meddyginiaethau sy'n cael eu presgripsiynu yn cyrraedd y bobl iawn - er enghraifft drwy gadw at Safon Dilysu Hunaniaeth Gwasanaethau Iechyd a Gofal Digidol, sy'n rhoi dull cyson o wirio hunaniaeth ymhlith y gwahanol sectorau gofal ac iechyd digidol
 - y presgripsiynydd wedi gofyn am fanylion cyswllt y presgripsiynydd arferol, megis y Meddyg Teulu arferol, ac am ganiatâd i gysylltu â nhw ynghylch y presgripsiwn
 - y presgripsiynydd yn rhannu'n rhagweithiol pob gwybodaeth berthnasol gyda gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill sydd ynghlwm wrth ofal y person (y Meddyg Teulu, er enghraifft)
 - y presgripsiynydd wedi cysylltu â Meddyg Teulu'r person cyn ysgrifennu presgripsiwn ar gyfer meddyginiaethau sy'n dueddol o gael eu cam-drin, eu gorddefnyddio neu eu camddefnyddio, neu pan fo risg mynd yn gaeth iddynt a monitro parhaus yn bwysig. Mae hyn er mwyn sicrhau bod y presgripsiwn yn addas i'r person a bod monitro effeithiol ar waith.
 - gan y presgripsiynydd systemau ar waith ar gyfer amgylchiadau pan nad oes gan y person bresgripsiynydd arferol megis Meddyg Teulu, neu lle nad oes caniatâd i rannu gwybodaeth, neu pan fo'r presgripsiynydd fferyllol wedi penderfynu, mewn amgylchiadau eithriadol, i ysgrifennu presgripsiwn er gwaethaf hynny. Dylent gadw cofnod clir o'r cyfiawnhad dros bresgripsiynu (er enghraifft: sut maen nhw wedi cadw risgiau mor isel â phosibl; yr

Improvement Scotland **Antimicrobial Stewardship**, Health Improvement Scotland **Safeguarding antibiotics for Scotland, now and for the future.**

⁸Cyffuriau sydd â gwahaniaeth bychan rhwng dôs therapiwtig a dôs gwenwynig yw cyffuriau â mynegai therapiwtig cul.



angen yn y fan a'r lle; sut gwnaethpwyd y penderfyniad i bresgripsiynu; a'r amgylchiadau eithriadol)

- yn gweithio o fewn canllawiau presgripsiynu cenedlaethol a lleol y DU a chanllawiau arfer dda. Byddai hyn yn cynnwys dilyn canllawiau perthnasol ar bresgripsiynu meddyginiaeth drwyddedig at ddiben didrwydded (presgripsiynu 'oddi ar label')

I gael rhagor o wybodaeth gweler ein **Canllawiau ar gyfer fferyllfeydd cofrestredig sy'n darparu gwasanaethau fferyllol o bell, gan gynnwys ar y rhyngwrwyd** a 'Ffynonellau gwybodaeth eraill' ar ddiwedd y ddogfen hon.

5. Mynegi pryderon

Rhaid i bob gweithiwr fferyllol proffesiynol, gan gynnwys presgripsiynwyr fferyllol, godi llais pan fo ganddynt bryderon neu pan fo pethau'n mynd o chwith. Mae hyn yn unol â'r 'ddyletswydd gonestrwydd' proffesiynol a statudol sydd arnynt. Rhaid i bresgripsiynwyr fferyllol fod yn onest gyda'r person a chydweithwyr a chyflogwyr, sy'n golygu bod yn onest hefyd pan fo pethau'n mynd o chwith.

Os yw unrhyw weithiwr fferyllol proffesiynol, gan gynnwys presgripsiynwyr fferyllol, yn teimlo bod presgripsiynu cydweithiwr yn anniogel, dylent gwestiynau'r penderfyniad neu'r weithred, a mynegi pryder pe gallai iechyd a lles y person fod mewn risg. Pan fo gan bresgripsiynwyr fferyllol bryderon o ran data presgripsiynu, rhaid iddynt hefyd fynegi'r pryderon hynny wrth y person perthnasol neu'r rheoleiddiwr.

I gael rhagor o wybodaeth, gweler ein safonau ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol a'n canllaw **Ar waith: Mynegi pryderon** Mai 2017.

Mae ansawdd y gofal mae pobl yn ei dderbyn yn gwella pan fo presgripsiynwyr fferyllol yn dysgu wrth adborth (a allai gynnwys cwynion) ac yn herio ymarfer ac ymddygiadau gwael.

Mae'n bwysig bod presgripsiynwyr fferyllol yn cofnodi, adrodd am a dysgu gan gamgymeriadau a 'phethau aeth bron o chwith' i reoli risg ailadrodd camgymeriadau.

Rhaid i bresgripsiynwyr fferyllol adfyfyrio ar adborth neu bryderon am eu hymarfer eu hunain gan gydweithwyr, gofalwyr neu bobl eraill a gweithredu pan yn briodol er mwyn atal yr un peth rhag digwydd eto.

6. Gwybodaeth ar gyfer cyflogwyr presgripsiynwyr fferyllol

Rhaid i gyflogwyr presgripsiynwyr fferyllol, ym mha leoliad neu gyd-destun bynnag, gael trefniadau llywodraethu yn eu lle i amddiffyn diogelwch cleifion. Mae rheoleiddwyr eraill (yng Nghymru a Lloegr) neu Fyrddau Iechyd (yn yr Alban) yn rheoleiddio ymddiriedolaethau GIG a Meddygfeydd Teulu. Ond rhaid i bob sefydliad a chyflogwr presgripsiynwyr fferyllol gael gweithdrefnau yn eu lle i adnabod a rheoli risgiau sydd ynghlwm wrth ddarparu a rheoli gwasanaethau presgripsiynu fferyllol. Mae hyn yn cynnwys pan fo perchennog fferyllfa'n gweithio gyda gwasanaeth presgripsiynu ar-lein. Pan fo presgripsiynwyr fferyllol yn gweithio o fewn sefydliadau (gan gynnwys y GIG a rhai preifat) neu'n cael eu cyflogi gan berchnogion fferyllfeydd, dylai cyflogwyr sicrhau bod:

- trefniadau llywodraethu priodol ar waith i sicrhau bod presgripsiynwyr fferyllol yn gweithredu a chyrraedd polisiau a safonau presgripsiynu lleol a chenedlaethol
- proses wedi ei seilio ar risg i reoli presgripsiynu a chyflenwi
- presgripsiynwyr fferyllol yn gallu cyflawni'r rhwymedigaethau proffesiynol a chyfreithiol sydd arnynt, ac yn gallu defnyddio'u crebwyll proffesiynol er budd cleifion a'r cyhoedd
- presgripsiynwyr fferyllol yn alluog ac yn cynnal eu gallu yn y maes maen nhw'n presgripsiynu ynddo
- pob aelod o'r tîm fferyllol neu amlddisgyblaethol yn gyfarwydd â'r

meysydd yr ymdrinnir â nhw yn y canllaw hwn ac yn deall eu cyfrifoldebau eu hunain mewn perthynas â phresgripsiynwyr fferyllol

- presgripsiynwyr fferyllol yn cynnal asesiadau ac yn darparu profion diagnostig i asesu cyflwr person, a bod offer a chyfleusterau'n ddiogel eu defnyddio ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n briodol
- systemau ar waith ar gyfer amgylchiadau pan nad oes gan y person bresgripsiynydd arferol megis Meddyg Teulu, neu lle nad oes caniatâd i rannu gwybodaeth, a'r presgripsiynydd fferyllol wedi penderfynu, mewn eithriadau eithriadol, ysgrifennu presgripsiwn er gwaethaf hynny. Dylai'r presgripsiynydd gadw cofnod clir o'r cyfiawnhad dros bresgripsiynu (er enghraifft: sut maen nhw wedi cadw risgiau mor isel â phosibl; yr angen yn y fan a'r lle; sut gwnaethpwyd y penderfyniad i bresgripsiynu; a'r amgylchiadau eithriadol)
- cymhelliannau neu dargedau ddim yn peryglu iechyd, diogelwch neu les cleifion a'r cyhoedd, na chrebwyll proffesiynol staff

6.1 Perchnogion fferyllfeydd yn gweithio gyda gwasanaethau presgripsiynu ar-lein

Rhaid i berchnogion fferyllfeydd beidio â gweithio gyda darparwyr ar-lein sy'n ceisio osgoi'r oruchwyliaeth reoleiddio sydd ar waith

yn y DU i sicrhau diogelwch cleifion yn y system gofal iechyd. Mae gweithio gyda phresgripsiynwyr nad ydyn nhw wedi eu cofrestru'n briodol gyda'r rheoleiddiwr proffesiynol perthnasol yn y DU, a gyda gwasanaethau presgripsiynu nad ydyn nhw yn y DU, yn creu risgiau sylweddol ychwanegol i gleifion a'r cyhoedd. Mae pryderon diogelwch sylweddol wedi eu hadnabod mewn perthynas â chyflenwi meddyginiaethau risg uchel ar-lein yn ystod arolygiadau diweddar ar fferyllfeydd.

I gael rhagor o wybodaeth ynghylch gwasanaethau fferyllol ar-lein gweler ein **datganiad ar gyflenwi meddyginiaethau risg uchel yn anniogel gan rai fferyllfeydd ar-lein, Egwyddorion arfer dda i ddiogelu cleifion ar-lein**, ein Canllaw ar gyfer fferyllfeydd cofrestredig sy'n darparu gwasanaethau o bell, gan gynnwys ar y rhyngwrdd, a 'Ffynonellau gwybodaeth eraill' ar ddiwedd y ddogfen hon.

Cwestiynau i'w holi i chi'ch hun

Mae ambell gwestiwn allweddol isod y dylai presgripsiynwyr fferyllol eu holi iddyn nhw eu hunain ynghylch sut y gallant sicrhau, a dangos, eu bod wedi darparu gofal â phobl yn ganolog iddo:



Ffynonellau gwybodaeth eraill

Gall presgripsiynwyr fferyllol gael mwy o wybodaeth a chanllawiau gan gyrff proffesiynol, darparwyr indemniad proffesiynol a chyrrff annibynnol fel y rhai a restrir isod:

Gonestrwydd

- Cyd-ddatganiad **dyletswydd gonestrwydd proffesiynol**

Gwrthdaro Buddiannau

- **Cyd-ddatganiad gan Brif Weithredwyr rheoleiddwyr statudol iechyd a gofal: gwrthdaro buddiannau**
- **Ffocws ar wrthdaro buddiannau**, GPhC, Regulate, Awst 2017 (mae'r erthygl yn cynnwys astudiaethau achos ar gyfarwyddo presgripsiynau)

Presgripsiynu

- **Canllaw ar safonau gofal**, Comisiwn Ansawdd Gofal (CQC)
- **Safonau ar gyfer Darparwyr Gwasanaethau Rhyw ac Iechyd Atgenhedlu o Bell ac Ar-lein** ar gyfer canllawiau ar ddarparu gwasanaethau iechyd rhyw diogel a phriodol o bell ac ar-lein, Cyfadran Iechyd Rhyw ac Atgenhedlu (FRSH) a Chymdeithas Iechyd Rhyw ac HIV Prydain (BASHH)
- **Arfer dda wrth bresgripsiynu a rheoli meddyginiaethau a dyfeisiau**, Cyngor Meddygol Cyffredinol, Mawrth 2013
- **Canllaw ynghylch rhannu gwybodaeth gyda chydweithwyr**, Cyngor Meddygol Cyffredinol, Rhagfyr 2014

- **A guide to good prescribing practice for prescribing pharmacists in NHS Scotland**, NHS Education for Scotland, **Gorffennaf 2012**
- **Prescribing and Clinical Skills**, NHS Education for Scotland
- **Fframwaith galluedd ar gyfer pob presgripsiynydd**, Y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol, Gorffennaf 2016
- **Canllaw ymarferol ar gefnogi presgripsiynwyr fferyllol annibynnol**, Y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol, Tachwedd 2018
- **Presgripsiynu anfeddygol yng Nghymru**, Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan (AWMSG), Mai 2017

Presgripsiynu cynnyrch cosmetig

- **Ymyriadau Cosmetig**, Awdurdod Safonau Hysbysebu, Ionawr 2016
- **Cod ymddygiad**, Cymdeithas Llawfeddygon Plastig Esthetig Prydain, 2013
- **Cod ymddygiad**, Cymdeithas Llawfeddygon Plastig Ail-greu ac Esthetig, 2016
- **Gweithdrefnau Cosmetig - yr hyn sydd angen ei ystyried**, Cyngor Meddygol Cyffredinol, Mehefin 2016
- **Canllawiau ar gyfer meddygon sy'n cynnig ymyriadau cosmetig**, Cyngor Meddygol Cyffredinol,, Mehefin 2016
- **Canllawiau ar gyfer ymarferwyr sy'n darparu ymyriadau cosmetig**, Cyd-gyngor

Ymarferwyr Cosmetig/Awdurdod Safonau
Ymarfer Cosmetig

- **Safonau Proffesiynol Llawdriniaeth Gosmetig**, Coleg Brenhinol y Llawfeddygon, 2016
- **Safonau Achredu, Save Face**. Mae Save Face hefyd yn cynnal cofrestr genedlaethol o ymarferwyr achrededig sy'n darparu triniaethau cosmetig anllawfeddygol

Presgripsiynu meddyginiaethau didrwydded

- **Presgripsiynu arbennig**, Y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol, Ebrill 2016
- **Meddyginiaethau oddi ar lable neu didrwydded: cyfrifoldebau presgripsiynwyr**, Asiantaeth Rheoleiddio meddyginiaethau a Chynnyrch Gofal Iechyd (MHRA), 2014
- **Cyflenwi cynnyrch meddyginiaethol didrwydded (arbennig)**, Asiantaeth Rheoleiddio meddyginiaethau a Chynnyrch Gofal Iechyd (MHRA), 2014

Presgripsiynu ar-lein

- **Cyngor ar-lein**, Awdurdod Safonau Hysbysebu, Chwefror 2015
- **Gofal cynradd ar-lein: gwybodaeth i ddarparwyr**, Comisiwn Ansawdd Gofal, 2019
- **Datganiad gan reoleiddwyr ar wasanaethau gofal cynradd ar-lein**, 26 Medi 2019
- **Rheoleiddiwr Fferyllol yn gweithredu ar gyflenwi meddyginiaethau risg uchel yn annïogel gan rai fferyllfeydd ar-lein**, Cyngor Fferyllol Cyffredinol, 18 Medi 2019

- **Egwyddorion arfer dda wedi eu cyhoeddi i ddiogelu cleifion ar-lein**, Rhyngreoeleiddiol, 8 Medi 2019

Hyfforddiant

- **Rhaglen Optimise - Dadbresgripsiynu**, Canolfan Addysg Fferyllol Ôl-radd
- **Presgripsiynu**, Canolfan Addysg Fferyllol Ôl-radd, 2019
- **Presgripsiynu mewn ymarfer cyffredinol**, Canolfan Addysg Fferyllol Ôl-radd
- **canllawiau proffesiynol ar weinyddu meddyginiaethau mewn lleoliadau gofal iechyd**, Y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol, Ionawr 2019
- **Qualification requirements for delivery of cosmetic procedures: non-surgical cosmetic interventions and hair restoration surgery**, Health Education England, Tachwedd 2015
- **Report on implementation for qualifications requirements for cosmetic procedures**, Health Education England, 2015
- **Safonau ar gyfer hyfforddiant ac addysg presgripsiynwyr fferyllol annibynnol**, CFC Ionawr 2019
- **Antimicrobial Resistance and Stewardship: Educational resources to support antimicrobial resistance, prescribing and stewardship within NHS Scotland**, NHS Education for Scotland
- **Modiwlau Proffesiynol a Chlinigol**, Cwricwlwm Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol, **2016**

Tachwedd 2019

- Mae'r Gymdeithas Fferyllol Frenhinol yn datblygu **Fframwaith galluedd** ar gyfer Ymarferwyr Presgripsiynau Dynodedig (YPD)

Ysgrifennu presgripsiynau a defnyddio presgripsiynau electronig

- **Fformwlari Cenedlaethol Prydain**
- **Canllaw ymarferol i bresgripsiynu**, Y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol
- **Cadw cleifion yn ddiogel wrth drosglwyddo rhwng darparwyr gofal – cael y meddyginiaethau'n iawn**, Y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol, 2012



Cyngor Fferyllol Cyffredinol
25 Canada Square, Llundain E14 5LQ
Ff 020 3713 8000
E info@pharmacyregulation.org

 [@TheGPHC](https://twitter.com/TheGPHC)
 [TheGPHC](https://www.facebook.com/TheGPHC)
 [/company/general-pharmaceutical-council](https://www.linkedin.com/company/general-pharmaceutical-council)
www.pharmacyregulation.org